# DINESYDD
## Hydref

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1983
RHIF 100

# CAN-MOLWN!

Annwyl Ddinasyddion,

Mae'n bleser o'r mwyaf gennyf gael eich cyfarch fel hyn ar gyrraedd eich cant oed. Yr ydych mae'n siwr yn gwybod fod yna draddodiad fy mod yn gyrru brysneges i bawb sydd yn cyrraedd eu cant oed, ond, a rhannu cyfrinach â chi, nid y fi sy'n ysgrifennu rheini ond rhywun yn rhyw swyddfa yn Whitehall. Mae'n nhw wedyn yn copio fy llofnod oddiar fy ngherdyn 'Access' i, a'i yrru heb i mi weld na lliw na llun ohono. Mi benderfynais felly mai'r peth doetha heddiw, ar achlysur mor bwysig, oedd sleifio i fyny i'm stafell, stafell gyda llaw yr ydwi wedi ei galw'n 'Michael Fagan Room', a'i sgwennu fy hun.

Mae Caerdydd yn ddinas sy'n agos iawn at fy nghalon i a'm gŵr a'm plant a'u plant hwythau, a'r llawer un arall sy'n perthyn pell neu agos ataf ac sy'n cael eu cynnal ar draul y wlad, heb anghofio'r corgwn wrth gwrs. Rydyn i gyd fel un teulu mawr yn ymfalchio yn y croeso a gawn bob tro y down i'ch prifddinas, ac yn ymhyfrydu fod gennych gymaint o blismyn awyddus yn eich plith - mae'n syndod yntydi mai nhw sy'n sefyll yn y rhes ffrynt bob amser y bydd wn acw yn ceisio cael golwg glosiach arnom a'u dannedd yn sgleinio yr un mor llachar â'u botymau a'u cyffion. Hogiau nobl mewn mwy nag un modd yn sicr.

Rydych wedi bod mor feddylgar ac enwi strydoedd ar ôl ein teulu, ac ambell i dafarn hefyd, ac mae'r hogyn 'cw wedi gwirioni bod 'na sinema wedi ei enwi ar ei ôl.

Bu mam yn agor eich theatr newydd ychydig fisoedd yn ôl ac roedd hi wedi synnu gweld cymaint o arwyddion Cymraeg ymhob man yno - roedd hi'n meddwl ei fod yn syniad ciwt iawn. Gofynnodd i mi ofyn a oedd y 'complimentaries' rheini a gafodd gan y cyfarwyddwr bryd hynny o unrhyw werth erbyn hyn!

Siom fach bersonnol imi oedd yr etholiad cyffredinol ym mis Mehefin, ac mae 'na fymryn bach o groesdynnu rhwng Mrs T. a minnau ar lawer o bethau. Mi fyddai'n teimlo weithiau ei bod hi am fod yn fwy o frenhines na fi a tydi hynny ddim yn iawn. Siom ddywedais i ynte, wel mwy na siom mewn ffordd o siarad oedd penderfyniad y Llefarydd i ymddeol. Gwn iddo fod yn aelod diymhongar iawn ichi dros ran o Gaerdydd dros gyfnod maith o flynyddoedd, ac roeddwn i wrth fy modd yn gwrando arno ar y radio yn dweud wrth hwn a'r llall am ddod at ei goed. Wn i ddim pwy oedd yn gyfrif am wneud arogl drwg yn y Tŷ ond roedd o wastad yn gweidd 'Odour, odour' yn toedd. Mae Tony bellach yn y 'Lords ac wedi dewis enw trawiadol i gyd-fynd a'i alwad flaenorol - sef 'pandy'. Mae gennych aelod seneddol newydd yn ei le bellach, ac mae hwnnw hefyd yn byrlymu o siarad naturiol y werin ddiwylliedig Gymreig fel ei ragflaenydd, ac acen y Gymraeg yn syrthio'n hyfryd dros ei wefusau.

Mae cinio'n barod, mae'r bwtler yn gweiddi, felly bydd yn rhaid rhoi'r gorau i'r llith am y tro. Un sgŵp bach ichi ar eich penblwydd - yn y Dinesydd y cyhoeddir gyntaf fod yr hogyn 'cw wed methu a chadw draw oddi wrt y ferch yng nghyfraith, ac bydd 'na un arall fel Wili bach o gwmpas ym mis Ebrill Un bach arall ichi gael tal amdano! Penblwydd hapus.

Twdl-w,

Lisi.

---

## "CAN-GO"

Dyna oedd dyfarniad y Panel Apêl. Llongyfarchiadau i Mrs. Sheila Damon ar ei buddugoliaeth dros Bwyllgor Addysg De Morgannwg. Mae Tobias yn awr yn ddisgybl swyddogol yn Ysgol Coed y Gof. Ond mae'r frwydr i barhau.

# GOLYGYDDOL

Hogyn ifanc iawn oedd y golygydd presennol pan welodd y DINESYDD olau dydd am y tro cyntaf. Ni all yma yn awr lai na thalu teyrnged i waith yr arloeswyr - gwelir cyfraniadau gan amryw ohonynt yng nghorff y rhifyn hwn. Yn ogystal â diolch iddynt hwy, dylem hefyd longyfarch holl froydd eraill Cymru a fu'n ddigon doeth i ddilyn eu hesiampl.

Mae llwyddiant y papurau bro yn un o'r ychydig enghreifftiau o Gaerdydd yn rhoi arweiniad i Gymreictod. Dathlu'r weledigaeth honno yw prif fyrdwn y rhifyn hwn.

Crybwyllwch hynny i lawer o'n cyd-ddinasyddion a diau na welant fawr i'w ddathlu. Mae penderfyniad Cyngor Dinas Caerdydd i beidio â chaniatau i'r plac enillodd y ddinas yng nghystadleuaeth Bwrlwm Bro Eisteddfod Llangefni gael ei godi yn ein Neuadd Gyngerdd Genedlaethol yn arwydd o'r pwys a rydd ar Gymreictod y brifddinas y mae'n honni ei gwasanaethu. Neu efallai mai'r ffaith bod y plac yn uniaith sydd o'i le. Wedi'r cyfan, cawsom glywed ers misoedd fod Neuadd Dewi Sant yn mynd yn ddwyieithog! Ond pryd tybed? Buom yn aros yn rhy hir yn barod.

Gair cyn cloi i ddiolch i bawb a ddychwelodd yr holiadur ar S4C a oedd yn y rhifyn diwethaf. Nid yw'n rhy hwyr i'w ddychwelyd o hyd. Gan fod y papur hwn yn rhad ac am ddim does dim rheswm pan na all pob copa walltog ohonoch lenwi copi. Cofiwch fod 10c i'r Dinesydd am bob un a ddychwelir. Bu'r ymateb hyd yma yn ddadlennol iawn. Bydd dadansoddiad manwl yn rhifyn Tachwedd. Diolch.


holl lyfrau Cymru ynghanol y dref
Oriel
Siop Lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl Caerdydd Ffôn: 395548
Catalogau ar gael


Y CALENDR

Hydref

1 Rhialtwch Rhiwbeina, Neuadd y Sgowtiaid, Rhiwbeina, 8-11.45 p.m. Tocynnau £3.

3 Cyfarfod Grŵp Cymraeg YDN Caerdydd; Tŷ'r Crynwyr, Heol Siarl - 7.30 p.m.

3 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, Gwesty'r Parc, 7.30 p.m. Prif Westai: John Elfed Jones, Cadeirydd Bwrdd Dŵr Cymru.

10 Merched y Wawr, Festri Minny Street, 7.30 p.m. Noson o adloniant yng nghwmni Côr Canolfan Caerdydd.

10 Cymdeithas Cymry'r Eglwysnewydd yng Nghapel y Methodistiaid (gyferbyn â'r Llyfrgell a Siop Jennifer). Y Llywydd: Mr. D. Gwyn Jones; 7.30 p.m.

13 Merched y Wawr, Cangen y Garth, "Ar y gweill - Siop Jen". Neuadd y Pentref, Pentrych.

14 Cymry'r Wenallt yn y Masons Arms, Yr Eglwys Newydd, 8 p.m., Noson Geilys.

20 Clwb y Dwrlyn. Brethyn Cartref. Clwb Rygbi Pentyrch.

20 Cymdeithas Wyddonol Caerdydd a'r Cylch; Adeilad Redwood, Athrofa'r Brifysgol, Parc Cathays, 7.15 p.m. Siaradwr: Athro Des Evans, - ANFEIDREDD.

22 Rali YDN - Llundain Trên arbennig o Gaerdydd. Cysylltwch â Meinir Vittle - 752522 - am fwy o fanylion.

22 FFAIR HYDREF, Ysgol y Wern. 2.00 p.m.

Tachwedd:

7 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, Gwesty'r Parc, 1.00 p.m.; Prif Westai: Hywel Gwynfryn.

YN EISIAU

RHYWUN I OFALU AM FABI YN YSTOD ORIAU YSGOL. CYSYLLTWCH 617896

# REQUIEM

Bwriedir perfformio "REQUIEM", Faure gan gôr Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yng nghapel Hanbury Road, Bargoed, nos Iau, Hydref 20, 1983, am 7.30 o'r gloch.

Gwahoddir oedolion i ganu rhannau tenor neu fas yn y côr gan nad yw lleisiau'r bechgyn yn ddigon trwm eto. Dyma fanylion ein hymarferion a gynhelir yn neuadd yr ysgol isaf yn Aberbargoed rhwng 7.15 - 9.00 o'r gloch:

Llun, Hydref 3
Iau, Hydref 6
Mawrth, Hydref 11
Iau, Hydref 13
Llun, Hydref 17
Mawrth, Hydref 18 - ymarfer llawn yn y capel.

Brynhawn Iau, Hydref 20 - ymarfer llawn yn y capel gyda'r unawdwyr am 1.30 o'r gloch.

Bydd croeso ichi fynychu rhai o'r ymarferion yn unig os na ellwch fod yn bresennol ym mhob un.

# YMDDIHEURIAD

Oherwydd natur arbennig y rhifyn hwn, gorfu inni hepgor rhai o'r colofnau rheolaidd a nifer o erthyglau diddorol eraill. Fe fyddant yn ôl y mis nesaf yn ogystal â cholofnau newydd. Bu hyd yn oed yn rhaid i'n Cadeirydd roi'r corcyn ar ei Binot! (Bydd yn dechrau colofn win y mis nesaf). Felly dim grawnwin surion, os gwelwch yn dda.

# Y GOLOFN GAIN

Dywed Arfon ei bod hi'n hen bryd cael cystadleuaeth felly anfonwch englyn neu englynion ar y testun COELCERTH, i 'Penmaen', 31, Heol Don, Yr Eglwysnewydd, erbyn Hydref y 15fed.

Dymuna Mrs. Meirwen Davies, Gwenda ac Eirlys a'u teuluoedd ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r llu cyfeillion a fu'n gefn iddynt wedi marwolaeth ddisymwth y diweddar Mr. Wyndham Davies, Thornhill. Daeth cyfraniadau ariannol hael i law er cof amdano a throsglwyddwyd swm sylweddol i Gronfa Ysbyty Harefield.

# COLOFN SHÂN

Â'r DINESYDD yn cyhoeddi ei ganfed rhifyn mae'n addas i minnau yn y golofn hon y mis yma sôn am ddathliad hapus arall.

Yn ddiweddar bu Owen a minnau yn y Bala i Bron y Graig, cartre hen bobol, i ddathlu penblwydd John Morris yn gant oed. Mae 'na gysylltiad teuluol â John Morris, fe briododd chwaer i wraig Syr O.M. Edwards. Ers blynyddoedd ef yw Llanuwchllyn i mi, wn i ddim am yr un cymeriad tebyg iddo.

Dim ond dwy flynedd sydd ers iddo symud i Fron y Graig. Cyn hynny cadwai ei gartre Brynraber ei hun bach gan dderbyn llawer o gymwynasau gan gymdogaeth dda Llanuwchllyn. Dirywio'n ara y mae John Morris gan fwynhau ambell ddiwrnod da. Bore ei benblwydd galwodd rhai o blant y Bala heibio i Fron y Graig i holi a oedd o'n ddigon da i fwynhau ei de parti. Llawenydd i bawb oedd rhannu un o ddyddiau da John Morris. Roedd o yn i bethau a'r hen ddireidi a ffraethineb yno'n eglur i bawb.

Roedd rhyw hanner cant yno ac fe gafwyd gwasanaeth byr i ddechrau. Perswadiwyd John Morris i aros ar ei eistedd yn yr emyn cynta, ond erbyn yr ail emyn mynnodd godi ar ei draed. Canodd y ddau emyn drwyddo heb orfod unwaith edrych ar y geiriau. Talwyd llu o deyrngedau iddo gan y rhai a'i cyfarchai. Ar ôl pob cyfraniad mynnai godi ar ei draed gan ymateb yn ddoniol a ffraeth. Ar ôl un cyfarchiad meddai "Wel, wedi'r holl ganmol 'na mae'n siwr i fod o'n disgwyl i mi i ganmol o rwan!" Dro arall ymatebodd fel hyn "os 'da chi gymaint o feddwl ohonnai mi fyddai'n disgwyl calennig gynno chi". Darllenwyd cyfarchiad oddi wrth y frenhines. "Dwi 'i nabod hi'n iawn" oedd yr ymateb!

Paratodd staff cegin Bron y Graig wledd werth chweil a chafodd neb fwy o flas ar yr arlwy na John Morris. Cafodd un sieri, gan helpu'i hun i ddau arall. Roedd yn amlwg nad oedd yn gyfarwydd ag o gan iddo lyncu'r tri gwydriad ar un llwnc yn union fel petae'n yfed gwin y cymun! Oedd, roedd yn ddiwrnod da, hapus, ac eto d'allwn i lai na theimlo tinc o chwithdod wrth sylweddoli bod amser yn cerdded. Tybed a welaf John Morris eto? Wrth adael, dwedais wrtho "Gobeithio y cai ddod i'ch parti chi yn gant ag un" a'r ateb "Wel, os byddwch chi yma mi fyddai inna yma hefyd"!

# CODI CALON

Noson i godi calon oedd y Noson Gwin a Chaws a gynhaliwyd yn Ysgol Glantaf ar Fedi 9. Daeth tua tri chant a hanner o bobol i gefnogi Anne Innes yn ei theyrnged hi i Harefield. Codwyd o leiaf £1,400 tuag at Gronfa Calon Ysbyty Harefield. Fel y gŵyr darllenwyr Y Dinesydd, cafodd Ken Innes driniaeth a chalon newydd yn yr ysbyty.

I Llandaf ar y noson daeth tri arall o wroniaid y driniaeth - un o Ashford, Swydd Middlesex, ac yr oedd gweld hwn yn dawnsio yn egniol i Ddisco hwyliog Hywel Gwynfryn yn ennyn y teimlad o wyrth gwaith llawfeddygon Harefield. Daeth y ddau wron arall o Dde Cymru - un o Riwbeina ac un o Lantrisant. Roedd y dyn ifanc o Lantrisant wedi cael y driniaeth ond chwe wythnos ynghynt.

Roedd siopau mawr a bach o gwmpas Caerdydd wedi cefnogi'r noson drwy fod yn hael iawn gyda rhoddion o fwyd a degau lawer o wobrwyon raffl. Rhaid rhoi clod arbennig i'r Brodyr Husbands o Lysfaen. Nid tipyn o gaws oedd hi ond arddangosfa o gaws a hwnnw wedi ei osod yn ddeniadol dros ben. Fel y dywedwyd, noson i godi calon oedd hi; caredigrwydd haelioni a pharodrwydd, dyna nodweddion wnaeth y noson mor gofiadwy. Syndod mawr oedd diffyg diddordeb y cyfryngau; doedd gan y BBC, HTV na'r Echo ddim digon o ddiddordeb i anfon gohebwr yn agos at y lle. Hwyrach petai'n noson o anlladrwydd, y byddai'r cyfryngau yno'n dyrfa.


Theatr Cymru

*I ddathlu penblwydd* Saunders Lewis *yn 90 mlwydd oed*

Maureen Rhys *fel* SIWAN *gyda* J·O·Roberts

Judith Humphreys
Derec Parry





Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau Yswiriant Bywyd Pensiynau*





**I'w agor yn fuan**

## HENLLYS

**Cartref i'r Henoed, Caerdydd**

**AELWYD GYNNES A GOFAL CYSON**

mewn ardal gyfleus
- parc a siopau wrth ymyl.
STAFF CWBL BROFIADOL.
GOFALAETH 24 AWR Y DYDD.
Y safonau DIOGELWCH uchaf.
LLUNIAETH RHAGOROL.
Bwydydd arbennig yn bosibl.
DAU BARLWR, a theledu lliw.
YSTAFELL FWYTA.
Gwasanaeth llyfrgell symudol, gofal gwallt a thraed, a golchi dillad.
DIM COSTAU CUDD.
Croeso i ddod â dodrefn personol (o fewn rheswm).
Cyfle hefyd i ddefnyddio'r aelwyd YN DDYDDIOL NEU AM GYFNOD BYR
CYMRY CYMRAEG YN GYFRIFOL

Çewch fanylion pellach wrth alw:
CAERDYDD 494204/762858

# 'DDARLLENAIS I MO'R RHIFYN CYNTAF'

Tra roedd Y DINESYDD yn mynd i'w wely am y tro cyntaf, roedd bwrlwm mawr hefyd yng Nghanolfan yr Urdd. Mae deng mlynedd wedi mynd heibio ers pan gynhaliwyd Yr Wlpan gyntaf ym Medi '73. Ers hynny mae rhai cannoedd o ddysgwyr wedi manteisio ar yr Wlpanau a'r dosbarthiadau sy'n cael eu cynnal yn y Ganolfan bob noson o'r wythnos.

Un o'r disgyblion ar yr Wlpan gyntaf honno oedd Christine Madden o Canton. Erbyn diwedd yr Wlpan roedd Christine yn siarad Cymraeg yn rhugl ac wedi ei derbyn yn gwbl naturiol i gylch o gyfeillion o Gymry Cymraeg.

Mae yn awr yn briod ac yn fam i dri o fechgyn; Gethin Siôn sy'n mynychu Ysgol Melin Gruffydd; Owen Dafydd a Tomos Rhys. Mae Alan, ei gŵr, yn athro yn Ysgol Gymraeg Caerffili.

Beth a olygodd ei phenderfyniad i fynd ar Wlpan i Christine?

"Fe ddechreuais i ddysgu Cymraeg tua deng mlynedd yn ôl gan obeithio dysgu mwy am y wlad lle ges i fy ngeni a'r iaith oedd mor estron i mi.

"Ar y pryd doedd dim syniad gen i sut roedd yr Wlpan yn mynd i newid fy mywyd. Ar ôl rhyw dair wythnos o'r Cwrs, fe gwrddais i â Chymro - ac fe briodon ni tua deg mis ar ôl hynny.

"Cyn bo hir, Cymraeg oedd iaith ein cartref ni. Pan ddaeth ein babi cyntaf - Gethin - dechreuais ar y dasg anodd o siarad Cymraeg ag ef o'r crud. Mae siarad ail-iaith gyda ffrindiau yn un peth ond, wrth gwrs, doedd dim profiad gen i o ganu rhigymau na chwarae gyda phlant bach yn y Gymraeg, na, chwaith, gwybod yr eirfa angenrheidiol - nappies, prams, ac ati.

Erbyn hyn mae gennym dri Cymro bach a phan 'dw i'n eu clywed nhw yn parablu a chwarae yn Gymraeg, 'dw i'n falch fy mod i wedi gwneud yr ymdrech.

Nawr, wrth gwrs, mae gen i nifer o ffrindiau ymhlith Cymry Caerdydd ac, i fi, dyna'r peth pwysicaf. Wedi'r cyfan, beth yw'r pwrpas o ddysgu iaith os nad oes bwriad i'w defnyddio."



Christine Jones, a oedd yn ddisgybl ar Yr Wlpan gyntaf a gynhaliwyd ddeng mlynedd yn ôl yng Nghanolfan yr Urdd.

# - "OND FE WNES I!"




Ymddangosodd y darlun hwn o LOWRI HELEDD FRANCIS yn darllen Rhifyn Cyntaf o'r Dinesydd, yn Rhifyn 9, Chwefror/Mawrth 1974. Sylwer mai un colofn yw adroddiad Clwb Cymric. Roedd hyn cyn amser Rhodri!



Wel, dyma lun o LOWRI unwaith eto; erbyn hyn yn ddisgybl yn Ysgol Melin Gruffydd. Edrychwn ymlaen at gael llun ohoni yn y ddau ganfed rhifyn!

# Gan fod eich papur chi nawr wedi cyrraedd ei gant dathlwn yr achlysur pwysig trwy gyflwyno ichi gip-olwg ar y 100 rhifyn.

Mr. T. W. Thomas yn "Steddfota".
RHAGFYR 2 43
Yn festri Tabernacl
Dr. Doublas Bassett yn son am Hanner Can mlynedd yr Amgueddfa Genedlaethol.

**LLYFR** 29

Galwais yn arddangosfa newydd Cyngor y Celfyddydau, *PRIODAS*, yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Roedd nifer o lyfrau ar werth yno hefyd. Rhai perthnasol i'r arddangofa mae'n debyg — fel y gyfrol *ART AND SOCIETY — SEX*. Ar gornel clawr y llyfr roedd label, "*Welsh Arts Council: HANDLING COPY*! Dyna ichi beth yw llyfr â gafael ynddo.

*Annwyl Mr Jones,*
*Pan ymddangosodd fy llith ar 'Yr Iaith yn Ysbytai Caerdydd' yn rhifyn mis Ebrill o'r DINESYDD, yr oedd nifer o wallau iaith a chyfnewidiadau eraill wedi ymddangos yn y testun, a'r rheini'n awgrymu'n gryf fod rhywun wedi ymyrryd yn hollol fwriadol— ac yn hur anwybodus— â'r fersiwn gwreiddiol.*

*Ysgrifennais at y Golygydd (llythyr dyddiedig Mai 8, 1978) gan restru rhai o'r gwallau iaith a chan ofyn am gael ymddiheuriad yn y rhifyn nesaf o'r DINESYDD. Ni chafwyd ymddiheuriad, ac anwybyddwyd fy llythyr.*

*Credaf fod yna gryn anghyfiawnder ac anghwrteisi. Cafodd un llythyr gennyf ei anwybyddu'n barod. Tybed, felly, a fydd Pwyllgor Golygyddol Y DNESYDD mor garedig â cheisio darbwyllo'r Golygydd i gyhoeddi ymddiheuriad inni cyn gynted ag y bo modd? Credaf na fyddai cael ymddiheuriad felly ond yn gyfiawn.*
*Diolch yn fawr,*
*Yn gywir iawn*
*GILBERT RUDDOCK,*
*Penylan, Caerdydd.*

**(Sori — Gol.)** 51

Mae rhaglenni fel 'Pot Black' a'r darllediad o ornest dartiau'r byd yn ddiweddar wedi sicrhau rhyw barchusrwydd i chwaraeon traddodiadol y 'cari dyms' lleol.

Yn sicr, ar ôl gweld cystadleuaeth snwcer rhieni aelodau'r uwch adran yn ddiweddar, yr unig ffordd i ddod ymlaen yn y byd heddiw yw drwy afael yn y ciw. Edrychwch ar bedigri'r snwcerwyr isod.

Dyfed Glyn Jones a Myrfyn Owen — cynhyrchwyr tededu
Owen John Thomas — Ymgeisydd Seneddol
Harri Pritchard Jones — Seiciatrydd
Arwyn Jones a Ken Innes — Prifathrawon
Merfyn Jones — Swyddog Bananas
Bryan Jones — Cyfarwyddwr
Gren Samuel — Gweinyddwr

27 CROESO I FFWLBART

80 Stryd Alfred,
Y Rhâth,
Caerdydd. 73

Annwyl Olygydd,

Llongyfarchiadau ar eich rhifyn cyntaf. Mae'n bosib taw'r 'Dinesydd' yw'r unig bapur bro yng Nghymru sy'n cael ei ddosbarthu'n rhad ac am ddim. Yn wyneb problemau ariannol y papur, pam na wnewch chi ystyried codi tâl?

Yn gywir,
G. Ifans.

HYDFEF 1975

Pob dymuniad da iddyn nhw yn eu Cartref newydd.

# CBAC yn symud 59

# Yn y Rhwyd 53

Ddydd Iau, Tachwedd 9fed, bydd achos unigryw yn Llys Ynadon Caerdydd pan fydd Nigel Watson o Gwmni Theatr Saga yn ymddangos o flaen ei well ar gyhuddiad o "gamdrin pysgodyn aur, o fwriad". Yr RSPCA sy'n dod â'r cyhuddiad yn ei erbyn.

Cwmni drama arbrofol sy'n gweithio yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd yw Saga, cwmni a sefydlwyd gan Nigel a'r wraig Inge, sy'n hannu o Wlad yr Ia. Rai misoedd yn ôl, cyflwynodd y cwmni ddarn arbrofol a oedd yn cynnwys pysgodyn aur byw yn nofio o gwmpas mewn powlen wydr. Ar ddiwedd y darn, chwalwyd y bowlen wrth i holl oleuadau'r theatr ddiffodd.

Wrth reswm, achubid y pysgodyn ar unwaith a'i roi mewn powlen arall, ond penderfynodd un o arolygwyr yr RSPCA a welodd y sioe ar ddwy noson wahanol fod yr holl broses yn un a oedd yn debyg o beri poen meddwl i'r pysgodyn. O ganlyniad, penderfynodd yr RSPCA erlyn y cwmni mewn llys barn.

Mae Nigel wedi cael ei rybyddio y bydd gofyn iddo ddod â'i bysgodyn (sydd yn dal yn fyw ac yn iach bum mis yn ddiweddarach) i'r llys gydag ef. Ni wyddys eto a fydd gofyn i'r pysgodyn dystio.


Taw piau hi rwan, rhag ofn i'r *Dinesydd* gael ei gyhuddo o dorri'r rheol *sub judice* (neu *sub morrae*, neu rywbeth). Os ydych chi'n meddwl mai jôc yw'r stori hon yn hytrach nag eitem o newyddion, galwch draw i'r llys ar Dachwedd 9fed i weld drosoch eich hunan — bydd Nigel yn falch o'ch cefnogeth.




DINESYDD DYDDIOL

## Y Bleidlais Bwysica

Ar 1af Mawrth, 1979, fe fydd Cymry yn pleidleisio ar y



Wrth i ni symud i mewn i ail fis 1976, erys un o gwestiynau llosg 1975 heb ei ateb hyd yn hyn, sef beth a fydd dyfodol addysg Gymraeg yn y brifddinas. Wedi llawer o wrthwynebu, symudwyd Ysgol Gymraeg Bryntaf o Fynachdy i hen Ysgol Uwchradd y Merched, Y Parade, Caerdydd, cam y proffwydai Owen John Thomas (*Y Dinesydd* Gorffennaf/Awst) a fyddai "yn cael effaith arafol andwyol ar ddatblygiad addysg Gymraeg yn y Ddinas."



**TROI COT**
Wrth beidio a sôn am Lystan cefais afael ar gylchgrawn merched Saesneg (mae gen i gytundeb efo'r ddynas drws nesa — tri *Woman's Own* am un *Pais*) a chynhyrfais drwyddaf wrth weld y pennawd... "Look what's happened to the good old British Cardi" — ...:"Tydi Lystan 'rioed 'di troi'n be chi'n galw," medda fi wrth y gŵr. Ond ar ôl rhuthro'n wyllt i du mewn y cylchgrawn gwelais mai stori am gardigans oedd ynddo. O'r fath siom!

22

Bu'r misoedd diwetha' yn gyfnod cythryblus i rieni ysgol Bryntaf a gweithiodd llawer iawn ohonynt yn galed er mwyn sicrhau dyfodol iach i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'n plant.

Siomedig iawn ar y llaw arall oedd llawer o Gymry'r brifddinas, o glywed am yr ymateb dychrynllyd fu mewn cyfarfod o'r Gymdeithas Rhieni yn ddiweddar pan gododd John Albert Evans i siarad yn Gymraeg.

*CYMRAES O GANADA* 68

25. Mae hon yn rhedeg bob cam o Bumlumon i Gasgwent (2,4,3) 77

# 'Welshies go home'

Gwelir yr enw 'Eglwys Wen' yn go aml yng ngholofnau gwrth — Gymreig y papur echrydus hwnnw "Adlais De Cymru" y dyddiau hyn. "Apartheid, segregation,




32

O'r diwedd, mae gobaith y cawn weld datblygiadau gwirioneddol adeiladol mewn addysg Gymraeg yn y sir hon yn y dyfodol agos. Bron flwyddyn wedi'r cyfarfod tyngedfennol rhwng rhieni Ysgol Gymraeg Bryntaf a Chyfarwyddwr Addysg De Morgannwg, Mr Fred Adams, pan roddodd y Cyfarwyddwr eli ar friwiau Bryntaf drwy son am greu rhagor o ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd (*Y Dinesydd*, Gorffennaf-Awst 1976), mae argymhellion pendant er sicrhau'r cam pwysig hwn ymlaen wedi gweld golau ddydd.

# BRWYDR BRYNTAF

66

Go brin y gall unrhyw un sydd â diddordeb yn natblygiad addysg Gymraeg yn Ne Morgannwg fod yn

# Yr Ysgol Gyfun Gymraeg

54

Mae dyddiau'r tymor cyntaf yn hanes Ysgol Gyfun Gymraeg, Glantaf, Llandaf, yn ehedeg yn gyflym,

76

# OWI RŴLS!

# DROS 20,000 YN DARLLEN Y DINESYDD!

# AMBAREL - CRACAR O LYFR!

92

# CHWYSWCH
*yn Gymraeg*
21

Deffrowyd pawb, fodd bynnag, gan y gôl nesa, gôl orau'r gêm yn ddiau. Sgoriwyd hi gan droed chwith raenus Moi Parri, sef fi, ond go brin y cafodd Cymric fawr o amser i orfoledd gan i Terry Jones sgorio ei ail gôl i'r Felinfach a dod a'r sgôr yn gyfartal unwaith eto. 32

gweiddi'n Gymraeg ar y cae. Cafwyd ychydig o gwynion wrth gwrs - un o'r goreuon gan hyfforddwr un clwb - "We'll report you to the British Council for not speaking English". Gofynnodd un reffari - "Are you all Welsh Nationalists?"; a pherl arall, gan un a'i wybodaeth am leoliad y rhai sy'n siarad Cymraeg yn fychan iawn oedd - "Are you all from Anglesey?". 19

## BLE'R AETH SHAKIN JENKINS?

## Canu'n y Swyddfa Gymreig




## DYMA'R BABI! BLE MAE PRAM?
61

**Bydd nifer o ddarllenwyr Y Dinesydd wedi clywed llawer am Gyfeillion y Theatr Gymraeg yng Nghaerdydd erbyn hyn.**

**4. STEDDFODWYR PUB(YR)** 35

**"Wyt ti ddim yn meddwl bod hi dipyn bach yn hwyr i ddechra son am y Steddfod rwan?", medda fi wrth yr hogan sy'n gneud y papur 'ma, "a hitha'n dymor conkers?"**

**"Ma' nhw'n son am y Steddfod yn 'Y Faner' nes bod hi'n dymor celyn," medda hitha. On i ddim yn gwbod beth odd 'Y Faner' nes deudodd hi ma run fath â'r 'Cymro' odd o, ond heb lynia. Ond ma rhiwun yn dysgu rwbath bob dydd dydi? A fela gesh i hawl i sgwenu hwn am Steddfod Aberteifi er mod i beth uffernol yn hwyr.**

MAI
1 Arena. Tair drama fer: Poen yn y bobl—Crwys.
Coffi am un ar ddeg — Tabernacl.
Rhwng dau a dwy — Dewi Sant.




**Mae Delyth a Dave Taylor yn symud o Cathays i Heol Sant Helen. Cymraes o'r Barri ydy Helen, ac mae ei gŵr, hefyd, yn prysur ddysgu'r iaith. Fu'r** 50

Cymro bach ifanc o Fryntaf yn sgwennu traethawd yn Saesneg ar Ddewi Sant a'r frawddeg gynta oedd "David is the ninth saint of Wales . . ." a'r athrawes yn gofyn beth a olygai? Yr ateb oedd "Dewi yw Naw Sant Cymru"! 57

# SIWAN
41

Mae'n amlwg y byddai'n beth da i ni i gyd ymweld â'n thatr leol yn amlach, pebai ond i ymgyfarwyddo â hi ac osgoi perfformans tebyg i'r eiddo'r gŵr bonheddig a ddaeth i mewn yn hwyr a cherdded ar draws blaen y llwyfan yng nghanol golygfa garu Siwan a Gwilym Brewys, a chwympo i lawr i ochr arall y llwyfan. Gyda pherfformwyr felly yn y gynulleidfa, prin fod angen actorion.

## Gron widd ddy wind?
36

**Mae ditectifs yn chwilio am garped gwerth £2.500 a ddiflannodd o siop Howell's, Caerdydd yn ystod**

## GŴYL IFAN
## Mehefin 20, 1981
77

Glywsoch chi fod Llys y Steddfod wedi datrys problem y Pafiliwn o'r diwedd? Maent wedi penderfynu gadael y pafiliwn yn yr unfan, a symud Cymru o gwmpas.

• • •

50

**Mewn cyfarfod yn Neuadd y Ddinas nos Wener, Mawrth 19eg, estynnwyd gwahoddiad swyddogol i'r Eisteddfod Genedlaethol i ddod i Gaerdydd ym 1978. Dilynodd y cyfarfod cyhoeddus sesiwn gyfrin ymlaen llaw pan fu swyddogion yr Eisteddfod yn ymgynghori gyda rhai o ddinasyddion blaenllaw Caerdydd ynglŷn âg ethol Pwyllgor Gwaith, gan drafod rhestr faith o enwau a oedd wedi ei pharatoi ymlaen llaw.** 29

## POS CROESEIRIAU

Ar draws

1) Gwaetha'r modd, mae rhaid mynd yn aml i'r lle yma.

5. Ar ol holi, fe ddylech gael hwn! (4)

6) Cwmni da yn y gwely. Piti fod ei wyneb mor ddu!

13) Pe bai goli yn golchi hwn, fe fyddai o hyd yn ddu!

I lawr

1. Mae babanod wedi cael eu magu yn un o'r rhain! Gofynnwch i mami, mae un ganddi hi! (3)

2. Mae un gan bawb, ond mae un merch lawer yn hwy nag un bachgen! (5)

5. *Mae gan bawb ddwy o'r rhain.* (3)

6. Gwaith barnwr! (5)

8. Twyllo yw gwaith hwn!

11. Mae dwy mewn trowsus, a rhagor ambell dro. Un lawn sy orau! (5)

RHIF. 1 EBRILL 1973

RHIF 50

*Dinesydd* yn 50 oed!

yn mynd i Fachynlleth a Dinbych ond ambell un yn mynd i leoedd dierth:-
"Hal, pwy 'di'r Auntie Annie 'ma o 'Mountain Ash', Mam?"
"O, taw son amdani, 'aonan. Chwaer i'th Nain oedd hi ond mi briododd â dyn o 'South Wales' 'sti a mynd yno i fyw hefo caneri mewn pwll glo a neb o'r teulu wedi'i gweld hi byth ers hynny."

TEIPYDD profiadol, yn barod i ymgymryd â gwaith preifat yn Gymraeg neu yn Saesneg. Telerau arferol. Cesglir y gwaith a'i ddychwelyd yn ddiymdroi. Caerdydd592653 72

77

Heddiw mae 95% o'r plant yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Mae hyn yn dangos bod yna ddiddordeb yn yr iaith mewn ardal di-Gymraeg o Gaerdydd.

90

# DIM DIMAI GOCH A'I HWN YW'R RHIFYN OLAF?

## Colofn hysbysebion personol


YN EISIAU — Dwy ffrij ail-law — nid er mwyn oeri mewn stereo, ond i ddau berson gwahanol. Cysyllter â'r golygydd.

AR WERTH — Crysau-T *Dinesydd Dyddiol*. £1.50 yr un. Ychydig ar ôl.

Cefais fy synnu'n fawr pan dderbyniais eich llythyr yn apelio am arian ar ran Y DINESYDD, gan fy ngalw yn 'un o garedigion y bywyd Cymraeg ym mro Caerdydd'. Yr wyf, yn sicr, yn un o'r bobl y cyfeiriwch atynt, ond methaf yn lân a deall sut y gallwch gysoni'r DINESYDD â hyn. Mae'n amlwg i mi mai rhyw ddifyrrwch plentynaidd cyfyngedig i bobl ddetholedig yw'r sothach yr ydych yn ei droi allan fis ar ôl mis, a gwae unrhyw un sydd y tu allan i'ch cylch bychan crachaidd, neu sydd heb fod yn fab neu ferch i hwn a hwn.

Yr ydych yn gwneud mwy o ddrwg i'r iaith Gymraeg a'r bywyd Cymreig yn y ddinas yma drwy eich agwedd ddewisedig nag y gallai unrhyw blaid boliticaidd gyflawni mewn canrif, ac y mae anfon allan am arian oddiwrth bobl yr ydych yn eu hanwybyddu'n llwyr ar bob amser arall, yn sarhad ar eu deallusrwydd.

Cariwch ymlaen i addoli'ch gilydd, â thalwch amdano eich hunain.




Gallwn eich sicrhau fod croeso cynnes (hynod o gynnes) yn y gwesty hwn. Mae croeso arbennig o gynnes ar fryniau Kasha - Kasha yw'r weinyddes hawddgar a ddaw a'r Garsalam atoch. Mae hi'n kaur o ferch!

Pan aethom ni yno fel teulu, - y fi a Taid Assam (a Hef ac Ieu), cawsom anhap anffodus. Bu'n rhaid i Taid godi ar fad ras gan weiddi "Mae'n rhaid imi vindaloo. Tibet a ddof i o hyd iddo". Yn anffodus, fe fethodd a bu papa dom.

Bu rhaid i finne druan fynd i glirio llanast fy nhaid gyda Khybar rhaw. Ond ys dywed yr hen air Hindwaidd

"Os Ghandhi bennill fwyn i'th Tahid
Fe Gandhi'th daid i tithau".

HEF A IEU

94

Ar yr 27ain o Chwefror fe ddathlodd Hef a Ieu eu penblwydd cyntaf.

# FFERM DINAS CAERDYDD

**CLWB CYMRAEG**

Twf mawr oedd yr hanes a glywodd aelodau C.C.C.C. mewn cyfarfod cyffredinol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Angel, nos Lun, 29ain o Fedi.

**CLWB CYMRAEG O'R DIWEDD** 69

Yn ddisgwylgar, 81

MALLT ANDERSON.

**Y CLWB CYMRAEG GAM YN NES**

Bydd rhaid i Gymdeithas 88
Clwb Cymraeg Caerdydd ...

Norman Williams,
Golygydd y Dinesydd,

Siân Edwards' 20
ffoniwch Caerdy...

...gwasanaeth gwerth-
...gan Medwen Roberts,

Raymond Edwards –

Mr Martin Huws,
un o blant y ddi...

Aled Islwyn.

80 **CLWB IFOR BACH - AR AGOR O'R DIWEDD!**

Ym ôl rheolau Amgueddfa Sain Ffagan, gostyngir y faner os bydd aelodau'r teulu brenhinol neu Gyngor yr Amgueddfa'n marw. Odi'r rheolau hyn yn gweddu i Amgueddfa Werin? 72

## Golygyddol

**Etholiad a achosodd lawer o holi fu etholiad cyffredinol dechrau'r mis, a hynny nid yn unig ymhlith y rhai a gollodd, sef pawb ond y Toriaid, ond mae'n fwy na thebyg, ymhlith y Toriaid eu hunain hefyd. Mwy na chanrif wedi torri eu crib gan y mudiad radicalaidd a ysgubodd bopeth o'i flaen yn fuddugoliaethus yn y man o dan arweiniad pobl fel Tom Elis a David Lloyd George, dyma'r Toriaid yn dod yn ôl yn ddigon cryf, yng Nghymru o bob man, i ennill 11 sedd gyda thuag un o bob tair pleidlais. Bydd rhai pobl ar eu hennill yn fawr wrth gwrs, ond os yw hanes wedi dysgu rhywbeth inni, mae lle i ofni mai gwahanol iawn y bydd hi ar drwch y bobl.**

* * * *

Sut mae'n bosibl dechrau 77 brawddeg yn y Gymraeg nad yw'n frawddeg bwysleisiol gyda rhagenw. Mae hyn yn rhemp hefyd a chlywais raddedig yn y Gymraeg ar 'Hawl i Holi' yn defnyddio'r ffurf hon ar frawddeg yn hollol ddigywilydd.

Wrth ddathlu deng mlynedd Ysgolion Meithrin, dewch inni ail-gydio yn yr hyn oedd yn gywir yn ein tafodieithoedd a chywiro iaith ein gilydd yn enwedig o fewn ein teuluoedd.

# Tawelwch o'r meysydd parcio

Ar ôl llwyddiant anhygoel meysydd parcio Canolfan yr Urdd ym Mhentwyn, mawr fu'r disgwyl am glywed faint o elw a wnaeth y Ganolfan drwy'r fenter wreiddiol hon. Ond hyd yma, ni ddaeth dim byd ond tawelwch llethol o gyfeiriad y Ganolfan, ac y mae pobl yn dechrau holi beth sy'n bod.

GŴYL
YSGOLION
CYMRAEG
CAERDDYDD
1982
Nos Wener, Gorff 9

**CYMRU'R WENALLT**
68

**Merched Y Wawr**

**Cangen Caerdydd**

***Medi 17 Noson Agoriadol - Codi Sgwarnog gyda Mr Islwyn Jones.***
***Hydref 15 Cofio'r 'hen bethau anghofiedig'.***

**yn bwyta pryd o fwyd wedi ei goginio mewn lovo. Twll yn y ddaear, tan poeth, cerrig poethach a'r cyfan wedi ei orchuddio efo pridd — dyna ydi lovo — popty mewn gwirionedd. Ac i mewn yn y popty? Corgimwch mewn sudd coconyt wedi ei lapio mewn dail banana, darnau o gig tyner crwban y mor, a mochyn cyfan. Ar ol awr a hanner yn y lovo, roeddem ni gyd yn llyfu ein gwefusau** 15

**MYND A DOD STAFF ER 1 MEDI 1878**

**YMADAWODD**

Wynne Melville Jones (Pennaeth Adran Cyhoedd...
Drefnydd Gŵyl gyda Bwrdd Datblygu Cymru
Dafydd G. L. Owen (Swyddog Hyfforddi, Datblyg...


*O'r Adroddiad Blynyddol, "Yr Urdd 78-79".* 62

**CYMDEITHAS CYMRY ARIANIVIN**

ODDIAR DOCYN RAFFL A WERTHWYD GAN SHAN EMIVIN ! 79

# MYNYDD BYCHAN? WAUN OT

82





**COFIWCH WRANDO!** 94

RADIO CYMRU 12–15 a.m.

**DYDD IAU, MAWRTH 10**

EITEM 'Y DINESYDD'

YNG NGHYSTADLEUAETH PAPURAU BRO



Un o'r cwsmeriaid yn ymweld a Siop Taflen – y siop lyfrau leiaf yn y byd. 82

**Y SYRCAS**

**Dywedodd Mr. Wilbert Lloyd Roberts mewn cyfarfod o Gymdeithas Theatr Cymru, rai blynyddoedd yn ôl bellach na chofia i'r Dinesydd ddweud yr un gair da am berfformiadau'r Cwmni.**

## LLYTHYRAU 71

Golygydd Y Dinesydd.

Mae Gwynn Ap Gwilym wedi gosod ei ben ar y blocyn ac yn haeddu ei gadw yno

Deallwn fod Mudiad Meddwi Caerdydd ar fin cael ei sefydlu yn y ddinas. Cysylltwch â'r Crwys ar nos Sul (nid y Capel).

Annwyl Olygydd 71

Ga i ddiolch o galon i chi am eich mawr ddoethineb yn rhoi tudalen gyfan o ofod i Gwynn ap Gwilym yn y rhifyn diweddaraf. Mae'n wir dweud mai dyma'r erthygl mwyaf doniol i ymddangos yn y Dinesydd ers blynyddoedd.

**Mae angen llongyfarch aelodau'r tîm am eu gwaith mewn meysydd eraill hefyd:** 82
**Richard Parsons ac Andrew am briodi (ddim gyda'i gilydd!)**
**Rob Sanger am ddod yn 380fed yn**

**CERRIG MILLTIR W.J.**
Hon yw'r bumed flwyddyn

**AR WERTH**

Tŷ Haf un llawr o ffram-waith coed, ym Mhentref Cenarth Ceredigion ger glannau'r Teifi.

Am fanylion pellach ffoniwch:
Caerdydd 561866



# Smygu yn y Capel

53

## Theatr newydd i Gaerdydd

Bydd Capel Pembroke Terrace yn derbyn ei "fedydd" fel theatr ddechrau mis Tachwedd pan fydd Cwmni Theatr yr Ymylon yn cyflwyno cynhyrchiad newydd o *Gymerwch Chi Sigaret* yno.




# GWARTH CLWB RYGBI

**Gan fy mod i'n son am ymwelwyr, a ninnau newydd ddathlu Gŵyl Dewi, dyma arwydd i wneud i Dewi druan droi yn ei fedd**




38

FURTHER CRWYSMESS

Ar ôl y canmol, dyma goblyn o anrheg Nadolig iawn, sef cic yn y

**6. Pam fod capel y Crwys yn erbyn mini-rygbi ar fore Sul pan fo un o'r blaenoriaid yn rhedeg am dros bedair awr mewn marathon - ie ar y Sul.** 81

**7. Pam mae pobl yn dal i ddarllen yr hen bapur diflas yma?**




**A fu gnydfawr, cnydied eto, — a'r DINESYDD yn gronicl o'i hathrylith a'i rhamant.**

**EMLYN JENKINS**

44

## Myfyrdod y Mis

**TACHWEDD Y PUMED, 1975**

**Guy Fawkes neu Gau Tafarnau** 22

**PETER HUW DAVIES**

GOLYGYDDOL

Mae ymgyrch y papurau toriaidd yn erbyn Ymgyrch Gwrth-niwclear y Merched yn Greenham Common wedi dechrau o ddifrif. Mae hynny'n arwydd da, achos golyga fod y llywodraeth yn ei chymryd o ddifrif. A hithau bron yn sicr yn flwyddyn etholiad cyffredinol, mae pwysigrwydd gwleidyddol y mudiad hwn yn tyfu fwyfwy bob dydd.

Gyda'r rhifyn nesaf bydd <u>Y Dinesydd</u> yn dathlu deng mlynedd o fywyd. Fe garem oll fod yma i ddathlu ymhen deng mlynedd arall.

**Y CLWB RYGBI A'R GYMRAEG !**

**O'r Western Mail, 28 Hydref, 1981 :**

**Eventually, rather than risk abandoning the game, Mr Evans gave his word that no Welsh would be used until the final whistle.**

82

**Beth yw barn y Clwb Peldroed??**

**"Mae nhw'n meddwl taw 'War Cry' Cymraeg ydi'r Dinesydd," medda Dai Corduroy.** 38

# CROESO I GYMRU IOAN PAUL II

87

# DEWI SANT YN DDI-GYMRAEG

89

## Mae'r sgrifen ar y mur

*Ein gwlad, ein tir, medd prydleswyr*




Cyrchfan siopa newydd i ddarllenwyr Y Dinesydd yw 'Taflen' yn Heol Conwy - y pen pella o'r dafarn - yn ardal Treganna.



82

Y tri anfuddugol yng Nghampau'r Urdd am geisio cadw'n effro drwy'r Seremoni Agoriadol!

## P'NAWN YNG NGHWMNI RUTH A BILL

81

CANOLFAN YR URDD

91

Yn dilyn llwyddiant ysgubol 'Ffrolics Ffrainc', fe gynhelir 'CABAN Y COWBOI' - ar nos Sadwrn, Tachwedd 27ain, yng Nghanolfan yr Urdd, 8 p.m. - 12 p.m.

Adloniant, bwyd a diod, noson o hwyl a sbri - ac wrth gwrs, disgwylir i bawb wisgo yn nhraddodiad y GORLLEWIN GWYLLT!! - YIPEE!

Tocynnau a Manylion Pellach - Canolfan yr Urdd, ffôn 36201; Taflen, ffôn 27530.

**Mistar Urdd**

Dwedwch pwy yw ei dadi — y swp bach
O siap od, ond teidi;
Ai Cyril? Ona, sori.
Medd Wyn Mel — "Mae jest fel fi".

54

Flynyddoedd yn ôl dwi'n cofio gweld darllediad o Sioe Gŵn Grufts ag yn wfftio at yr holl Sioe, ac meddai nhad "rhaid iti gofio mai dyma Steddfod Genedlaethol y rhain".

90

*Os oes gennych chi ddiddordeb yn yr orsaf radio lleol fydd yn agor yng Nghaerdydd ym 1980, ac yn lle'r Gymreig yn ei rhaglenni, fel y dylai fod, EWCH I'R CYFARFOD.*

57


**"CYFARFOD CYHOEDDUS MEHEFIN 11eg ..... Bydd y cyfarfod uchod o bwys i ddarllenwyr Y Dinesydd ......"**

59

Dyna rai o eiriau'r hysbyseb ar Ddarlledu Caerdydd yn rhifyn diwethaf Y Dinesydd. Ond wedi cyrraedd y cyfarfod, 'roeddwn yn flin iawn i weld mai dim ond rhyw hanner dwsin o Gymry Cymraeg oedd yno. Cafwyd cyfarfod cynhwysfawr ar hanes a datblygiadau Cardiff

## Darlledu Caerdydd

CBC



# YN GANT, AC ETO'N GYNTAF

Anaml iawn, 'dybiwn i, y gellir nodi dyddiad geni unrhyw syniad. Mae genedigaeth syniad yn debycach i ddal y frech goch, neu haint tebyg, nag yw i enedigaeth y cread mawr yr ydym yn rhan ohono; yn ôl Genesis fe grewyd hwnnw o ddim! Rhyw beth yn yr awyr oedd y syniad am bapur bro (neu bapur cymuned fel y bu rhai yn synied amdano ar un adeg) ac yno y bu am gryn amser, hefo rhai yn 'ei ddal' o bryd i'w gilydd ond heb fedru cael gafael iawn arno rywsut. Sut bynnag am hynny, yng Nghaerdydd y torrodd y frech allan yn iawn ac o ganol y dwymyn y daeth Y DINESYDD i fod.

Ond dyna ddigon ar lefaru'n ddamhegol, rhag ofn i rywun dybio fy mod yn cymharu'r hen bapur annwyl i beth mor annymunol ag afiechyd. Rheitiach o lawer yw bod yn fwy ffeithiol ac anfarddonllyd. Dyna pam, felly, y troais at ddyddiadur a gadwaf - yn achlysurol - pan ofynwyd imi sôn rhyw chydig am ddyddiau cynnar y papur. Maddeuer y cywair personol; mewn dyddiadur y mae dyn yn rhwym o edrych ar bethau oddi ar ei domen fach ei hun. Cyfyngaf y dyfyniadau i'r adran honno yn unig sy'n sôn am y cyfarfodydd cychwynnol. Dyma beth o'r druth:

Rywbryd ym Mai 1972 sgrifennais at nifer o gydweithwyr yn y Gorfforaeth a HTV - pobl cysylltiedig ag adrannau Newyddion, Materion Cyfoes a Chyhoeddusrwydd, yn arbennig - yn gofyn iddynt a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn trafod y posibilrwydd o gyhoeddi newyddiadur bach a allai wasanaethu cymdeithas Gymraeg Caerdydd a'r cylch ...sgrifennwyd at gyfeillion eraill hefyd.
Atebodd nifer go dda ohonynt, yn dangos diddordeb. Gelwais gyfarfod yn 81 Heol Shirley ar nos Sul, Mehefin 25ain, 1972. Ni ddaeth ond rhyw ddeg ynghyd....Cafwyd trafodaeth gyffredinol iawn. Cefnogol ddigon. Yn ffodus cyfeiriodd Gareth Lloyd Williams...at enw Norman Williams. Euthum i gysylltiad ag o ar unwaith a'i gael yn fwy brwdfrydig nag unrhyw berson arall y gwyddwn amdano. Cawsom gwbl o giniawau i drin y syniad. Penderfynwyd y dylem alw cyfarfod go gyffredinol o rai o gynrychiolwyr cymdeithasau Cymraeg y ddinas a'r cylch. Lluniais restr o enwau - tua 40-50 - a sgwennais atynt yn eu gwahodd i gyfarfod yn Festri Dewi Sant ar Hydref 18,1972. (Cawsom ganiatâd parod i ddefnyddio'r festri gan y Parch. George Noakes).

Yn y cyfarfod hwnnw roedd tua 25 o bobl yn bresennol ac, unwaith eto, yn ddigon cefnogol. Rhai yn amheus iawn ynglŷn â'r fenter.... Codi pob math o fwganod ond pwrpas y cyfarfod hwn oedd ceisio digon o gefnogaeth, mewn egwyddor, i sefydlu pwyllgor a allai wedyn drin a thrafod manylion. Yn ffodus cafwyd y fath gefnogaeth a phenodwyd pwyllgor trefnu. Galwyd aelodau hwnnw ynghyd, am y tro cyntaf, yn Heol Shirley, Chwefror 1, 1973. Etholwyd swyddogion. Norman yn olygydd.

Ar Ebrill 2, 1973, ymddangosodd y rhifyn cyntaf ac o hynny ymlaen bu cnewyllyn o ffyddloniaid yn cadw'r cyfan i fynd. A dyna yw'r gwaith gwirioneddol anodd - cynnal y papur o rifyn i rifyn pan yw'r brwdfrydedd cyntaf wedi troi'n lludw llwyd. Ar ymddangosiad y canfed rhifyn hwn gellir yn briodol ddiolch i bawb a gyfrannodd, ymhob rhyw fodd, o flwyddyn i flwyddyn; yn arbennig, gellir gwerthfawrogi ymdrechion glew y rhai sydd wrthi heddiw yn gofalu bod Y DINESYDD yn parhau i drigo yn ei ddinas. Hir y parhao felly.

MEREDYDD EVANS.

# COFIWCH

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Tachwedd at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (753625) erbyn Hydref 21.

# CYSTADLEUATH AM DDIM!

Y llynedd ganed dau gwmni Theatr Cymraeg newydd: Hwyl a Fflag a Sgwar 1.
Cafodd eu sioeau cyntaf, a berfformiwyd yn y Sherman, lwyddiant mawr.
Bellach mae'r ddau gwmni wedi cyfuno i gyflwyno comedi ddisglair yn Theatr Chapter, yn Nhreganna, Caerdydd.
Digwydd chwarae "Yr Iach Yn Y Bore" ar fferm iechyd, ac yn ymddangos ynddi mae Wyn Bowen Harries, Myrddin Jones, Valmai Jones a Clive Roberts.
Ceir Tocynnau yn awr, ond dyma'ch cyfle i ennill dau docyn am ddim i hwyl o sbort a sbri.

**I helpu dathlu'r 100fed rhifyn o'r Dinesydd, mae Chapter yn rhoi dau docyn, gwerth £6, i ffwrdd am ddim.**

**Atebwch y gwestiwn syml hwn:**
**"Beth oedd enwau'r sioeau cyntaf Hwyl a Fflag Sgwar 1?"**

Anfonwch eich ateb, ynghyd a'ch enw a'ch cyfeiriad, at Chapter, Treganna, Caerdydd CF5 1QE.
Daw'r gystadleuaeth i ben ar ddydd Llun, Medi 17, pryd y rhoddir y ceisiadau i gyd i fewn i flwch, a thynnir allan ceisiad buddugol.
Os gwelwch yn dda, a wnewch chi roi gwybod ar ba noson yr hoffech gael eich tocynnau rhad. Perfformir y sioe o nos Fawrth 25 Hydref tan nos Sadwrn 29 Hydref, am 8.00 p.m.

# ENPR LWYDDB APUSHN

Rydw i bob amser wedi arfer meddwl fy mod i'n un o'r criw bychan a fu'n llygad-dyst o wewyr esgor y papur bro cyntaf yng Nghymru, y Dinesydd, ond gan fod dau hunan-gofiannydd o leiaf wedi cerdded yr hen lwybrau heb sôn dim amdanaf tueddaf i gredu mai breuddwydio'r oeddwn pan ddaeth llais ar y ffôn rhyw ddiwrnod, dipyn dros ddeng mlynedd yn ôl i ddweud:

"Ma criw ohonon ni'n meddwl am gyhoeddi papur lleol. Fyddech chi'n caru ymuno â'r tîm?"

Byddwn, wrth gwrs, ac yn fy mreuddwydion i, tîm llawn brwdfrydedd oedd e. Os da y cofiaf, roedd un aelod yn dal cysylltiad agos â'r wasg ac yn gwybod am deip a gosod. Roedd un arall yn ennill ei damaid trwy gasglu newyddion ar gyfer Cwmni Teledu. Eraill wedyn wedi bod yn gweithio ar gylchgronau ac yn gwybod sut i fynd o'i chwmpas hi i gasglu clecs ac erthyglau a fyddai'n debyg o fod at ddant pawb.

"Fe fydd yn fodd i ddod o hyd i Gymry yn y ddinas na wyddan nhw fawr ddim am fywyd Cymraeg y lle."

"Modd i ni ddod i nabod ein gilydd."

"Ac ardaloedd. Fe gasglwn ni riportars o'r Tyllgoed a Sblott, o Gyncoed a Threganna, o'r Waun ac Elái. Bydd un neu ddwy stori o bob ardal, adroddiadau'r capeli ac ambell dafarn yn ddigon i lanw'r rhan fwyaf o'r papur."

"Ond beth am y gweddill?"

"Fe fydd pobol am hysbysebu. Mae na bobol mewn swyddi diddorol. Ac fe fydd yna ddalen blant."

Os yw fy mreuddwydion yn iawn, fi gafodd ofalu am honno. Cofio chwysu i gael neges mewn côd ar gyfer y rhifyn cyntaf, i blesio'r hen blant. Eu dychmygu'n cnoi pensiliau uwch y dryswch.

Cwrdd â gwraig yn ei saithdegau yn fuan ar ôl i'r rhifyn cyntaf ddod allan a honno'n dweud:

"Wedi datrys y côd. Fydd na ragor?"

Fe fu rhagor. Aed mor bell â dilyn y drefn arferol a threfnu cystadlaethau gyda gwobrau sylweddol.

Fu dim ymateb. Ni ddaeth yr un llythyr mewn ymateb i'r holl ddychmygu a straffaglio.

Y pwyllgorau misol yn esgor ar lu o syniadau a'r golygydd yn ei chael hi'n anodd gwthio popeth i mewn. Oherwydd swm y deunydd, y tudalen blant yn cael ei thorri i'r hanner ac yn gorfod mynd yn y diwedd. Ond digon o bethau da at ddant pawb o hyd, neu felly y tybiem ni.

Os da y cofiaf, yr oedd dwy farn o'r cychwyn cyntaf. Rhai am bytiau o newyddion am eni, marw, llwyddiant, troeon trwstan ac ati ac eraill am ddeunydd trymach a la Dafydd Ellis Tomos ac ati. Llwyddwyd, am a wn i, i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng pawb ond yna dechreuodd y costau gynyddu.

Roedd problemau eraill hefyd, rhai fel breuddwydion nas gwireddwyd. Anfonwyd cant (100) o gylch-lythyron allan i'r maestrefi'n gofyn am riportars. Cafwyd dau ymateb yn unig, yn dweud eu bod yn rhy brysur.

Dechreuodd y pwyllgor edwino. Rhy brysur, rhywbeth arall ar y gweill, nosweithiau'n anghyfleus ac ati - yr un hen stori.

Rhaid derbyn gyda balchder, er hynny, i'r papur ddatblygu'n gyfeiliornus o anfoesol. Magodd gnwd o blant dros Gymru i gyd.

Pe bai'r plant i gyd yn dod i'r parti pen-blwydd (os oes yna un), ofnaf y byddent yn taflu golwg anffafriol arno.

Mae rheiny wedi tyfu'n bapurau nobl, lawer ohonyn nhw, yn llawn o luniau a phytiau o newyddion ac erthyglau, sydd yn werth eu darllen. Daw nifer i'r tŷ yma'n gyson a rhaid i mi gyfaddef yr â llawer mwy o amser i'w darllen nhw na'r Dinesydd ar ei wedd bresennol.

Mater o chwaeth yw hyn wrth gwrs. Dydw i ddim yn ddyn sinema nac yn ddyn croeseiriau, chwaith ac wn i ddim paham nad wyf yn hoffi darllen am lyfrau mewn papurau bro. Eto, rwy'n cofio amddiffyn un a fu'n olygydd mewn cyfarfod cyhoeddus un tro oherwydd bod rhai yno na chytunai ag ambell beth yn y papur. Ar ôl i olygydd gael ei ddewis, rhaid i ni ymddiried ynddo ef a'i banel golygyddol gan dderbyn eu bod nhw'n gwybod eu bod yn plesio'r mwyafrif.

Fel un o'r rhai a fu'n esgor y papur, buaswn i wedi mynd ar drywydd gwahanol sawl tro ond mewn cyfarfod blynyddol ac nid mewn parti y mae bwrw barn.

Gyda llaw, gawsoch chi hwyl ar gôd y teitl? Pen-blwydd hapus yw'r ateb. Mae'r Dinesydd yn dal i fyw, a hynny mewn cyfnod anodd. Dyna sy'n bwysig. Gellir cyflawni gwyrth gydag unrhyw beth sydd â bywyd ynddo.

WJJ


CURIAD

PAPUR BRO CYMRU GYFAN

RHIFYN MEDI - HYDREF

* MEIC STEVENS Y SWYNWR O SOLFA

* SYR ALUN-DYN Y SEFYDLIAD

Ar werth yn eich siop bapur – holwch amdano

30c



U.C.A.C.

PAHAM?

Rhag Cymru
Heb Gymry
A'r Athro
Dan Draed

Prif Swyddfa:
Pen Roc, Rhodfa'r Môr
Aberystwyth 615577

Ysgrifennydd y Sir:
Anthony Evans, Ysgol Glantaf

U.C.A.C.



CABARET GYDA

HAPNOD

Canolfan yr Urdd
Hydref 29

Tocynnau: Taflen,
Aelodau'r Pwyllgor.



Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru ac i'r Swyddfa Gymreig am eu cefnogaeth ariannol at gostau'r Dinesydd.

# NODION O'R YSGOLION

NEWYDDION GLANTAF

Llongyfarchiadau i bob disgybl o'r bumed flwyddyn llynedd ar eu llwyddiant yn arholiadau allanol y Cyd-bwyllgor.

Llongyfarchiadau hefyd i Bennaeth yr Adran Ysgrythur Mrs. Nerys Wyn Davies (nee Jones) ar ei phriodas. Dymunwn pob hapusrwydd iddi hi a Ralph.

Y Chweched Dosbarth. Mae trigain disgybl wedi dychwelyd i'r chweched i ddilyn amrywiaeth fawr o gyrsiau. Maent wedi ymgartrefu yn yr 'Uned' ac yn edrych yn hynod o smart ac aeddfed yn eu gwisg newydd o lwyd a gwin. Pob lwc iddynt.

Ymddeol. Dymunwn hir oes a iechyd i Mr. Arnold Lloyd ar ei ymddeoliad. Bu ei wasanaeth yn hir a gwerthfawr.

Athrawon Newydd. Estynwn groeso cynnes i'r saith athro newydd i'n plith:

Mr. Gwyn Griffiths, brodor o Niwbwrch, Sir Fôn. Bu'n dysgu yn Ysgol Gyfun Rhymni am rai blynyddoedd ac mae newydd gwblhau cwrs yng Nghaerleon ar "Addysg i blant ac anfantais arbennig". Fe yw Pennaeth Adran Adfer yr ysgol. Mae'n byw yng Nghaerffili gyda'i wraig a dwy ferch fach.

Mr. Malcolm Rees, yntau hefyd yn byw yng Nghaerffili ond yn wreiddiol o Aberaeron. Bu'n dysgu yn Ysgol Lady Mary a'r Eglwys Newydd ac yn awr mae'n ail yn yr Adran Ffiseg. Aelod o Glwb Rygbi Cymry Caerdydd.

Mae Mrs. Iris Williams yn hannu o ardal Rhydaman ac yn byw yn awr yn Ninas Powys. Bu'n dysgu yn Bexley, Caint am rai blynyddoedd ac wedyn mewn dwy ysgol yng Nghaerdydd. Mae hi wedi ymuno ag Adran Saesneg yr ysgol.

Miss Lynne Canning - o Drefach, Cwm Gwendraeth a chyn-ddisgybl Ysgol y Gwendraeth. Enillodd radd Prifysgol Cymru o Aberystwyth ac mae'n dysgu Daearyddiaeth ac Economeg.

Miss Gwenno Davies - o Drefdraeth, Sir Benfro a chyn-ddisgybl Ysgol y Preseli. Graddiodd yn y Gymraeg a Drama o Goleg Aberystwyth. Mae hi'n aelod o'r Adran Gymraeg.

Mrs. Katherine Davies. Ganed Katherine yn Accra ond cafodd ei haddysg ym Mryntaf a Rhydfelen. Graddiodd o Goleg Aberystwyth ac mae'n aelod o'r Adran Ieithoedd Modern.

Mr. Ithel Davies - o Wauncaegurwen a chyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Ystalyfera. Aeth i Goleg Cyncoed, Caerdydd ac mae'n dysgu Mathemateg ac Ymarfer Corff. Aelod o dîm rygbi Castell Nedd.

Gweithgareddau. Ymysg y llu o weithgareddau a gynhelir yn ystod y tymor hwn, bydd cynhyrchiad o 'Olifer'. Cewch ragor o fanylion am ddyddiadau ac ati maes o law.

"WHARE TEG"

Cwmni newydd sbon yn cyflwyno
Dwy ddrama newydd sbon.

LLYGAD Y MYNYDD, David Lyn
"Dychan ysgafn ar y sefydliad yng Nghymru"

GYDA LLAW, Michael Povey
"Comedi"

Yr actorion:
CHRISTINE PRITCHARD : DAFYDD HYWEL : SIWAN JONES
ERNEST EVANS

Y Cyfarwyddwyr:
ISLWYN MORRIS : WILLIAM THOMAS

THEATR CHAPTER, 7.30 p.m.
Tachwedd 2, 3, 4
Pris: £2 i bawb

****************************

CLWB RYGBI CYMRY CAERDYDD

MINI RYGBI

SESIYNNAU YMARFER I FECHGYN
7 - 11 OED

Yn dechrau : HYDREF 9fed

MEYSYDD LLANDAF, 9-10 a.m.

Cysylltwch â Wyn Williams
Ffôn: 732359

****************************

NODION O YSGOL UWCHRADD CWM RHYMNI.

Llawenydd mawr i bawb oedd gweld y Dr. Hywel Griffiths yn ôl wrth ei waith ar ôl triniaeth lawfeddygol. Mae e'n 'eithaf ffit' medde nhw!

Ymunodd llu o athrawon newydd a staff yr ysgol:

Gwawr Mason, cyn-ddisgybl o Ysgol Rhydfelen, wedi ymuno a'r Adran Ddrama.

Ceri Roberts, hithau hefyd yn gyn-ddisgybl o Rydfelen, i'r Adran Adfer.

Rhian Dwynwen Jones o Abergele wedi ymuno a'r Adran Ysgrythur.

Eurig Davies wedi symud o Lanharri yn Bennaeth yr Adran Gymraeg.

Gwilym Thomas wedi dod o Rydfelen i fod yn Bennaeth Adran y Crefftau Trwm. Mae Gwilym yn un o fechgyn Y Cwm ers blynyddoedd.

Rhodri Lloyd wedi dod o Rydfelen i fod yn Bennaeth yr Adran Bywydeg - gan ei fod yn briod â Phennaeth yr Adran Gerdd, mi ellid disgwyl cynhyrchiadau tebyg i 'Garnifal yr Anifeiliaid'!

Nia George, cyn-ddisgybl o Ysgol Penweddig wedi symud o Ysgol Cantonian Caerdydd i'r Adran Gwyddor Cartref.

Gwyneth Thomas o Lanrug wedi symud o Lundain i'r Adran Saesneg.


Llinos Jones o Goleg Aberystwyth wedi ymuno â'r Adran Gymraeg.

Bydd llawer o hen ddisgyblion Rhydfelen yn falch o ddarllen fod Alan Jones - mab i gyn-ofalwr Ysgol Rhydfelen, a disgybl o'r un ysgol, wedi ei benodi i swydd athro cylchynol Offerynau Chwyth yn ardal Cwm Rhymni ac fel rhan o'i waith mae'n dysgu yn yr Ysgol Gymraeg.

I godi calon y Dysgwyr - mae Ysgrifenyddes yr ysgol - Mrs. Muriel Beran o Gaerffili wedi dysgu Cymraeg yn weddol ddiweddar ac wedi ymuno â'r ysgol.

O gofio am agwedd Gwent tuag at y Gymraeg, da darllen am lwyddiant rhai o blant y sir - Catherine Hunt o Gasnewydd wedi ennill lle yn Nhim Gymnastig Merched Cymru. Gorchest Cynon Davies o Risca oedd bod yn gyntaf i ddatrys pôs anodd dros ben, hynny ar Raglen Cwis ar S4C.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 36



Gan mai hwn yw canfed rhifyn Y DINESYDD mae 'cant' neu 'can' yn digwydd yn aml yn atebion y Croesair. ond nid cant yw ystyr pob cant, na phob can, os ydych yn fy neall. Pob hwyl gyda'r datrys. Ap Lewsyn.

--------

Ar Draws:

1. Myfyrio'n ffigurol yn trwsio cloc i ni. (4,3)
5. 100 llam llachar (7)
9. Gwelodd Caradog ran o hon wrth olau'r lloer (5)
10. Byddid yn rhoddi trwydded (9)
11. Faint a yfodd y Sais diarhebol wrth feddwi (3,7)
12. Yr hyn a ddaw o godi stêm yn rhan anystywallt o Gaerdydd. (4)
14.



(2,3,6)

18. Bod yn berchen ar ffortiwn fach erstalwm, a'i chadw mewn un metpan cudd. (4,7)
20. Cydgynulliad i "ddangos eich ochr". (4)
21. L. (6,4)
25. Ymryson wyth o ddoeth- uriaid. Bu iddynt bwrw baich. (9)
26. Llymru - un cas berwedig. (5)
27. Ffôl yw A.S. chwerthin- llid. (7)
28. Tipyn o ddur a gafwyd yn anodd, ond bu iddo decáu. (7)

I Lawr:

1. Gwaith cydnabyddedig- ddilys swyddog y gadeir- lan. (5)
2. Cyfle i brynu o'n swci chwareus. (6)
3. Deg oed yw Pero, ond yn ôl y ddihareb, "Deng- mlwydd, -------- --" (8,2)
4. Mae'n ffodus fod yna le cul mewn sw. (5)
5. Mewn Cymraeg byw pyrsentijes yw'r gair (9)
6. Nid yw'n medru (2,2)
7. Tuedd y "Coleg ger y Lli" a'r pedolwr i anghofio'n llwyr. (8)
8. Nid brawddeg yw sentence y Sais bob amser(8)
13. Rhengoedd lawer o sopranos? (10)
15. Difater a disylwedd ond eto yn haeddu pob ystyr- iaeth. (9)
16. Gwna hyn, a thenau fyddi. (8)
17. Rhesymol wasanaeth y credadun. (5,3)
19. Deng mil yng ngweith- garwch egniol y Moulin Rouge? (6)
22. Fe fynnodd fan diogel, cuddiedig. (5)
23. Do, fe gafwyd nodyn. (5)
24. Amod bwyta, yn ôl Genesis. (4)

-----

DATRYSIAD CROESAIR 35

Ar Draws: 1. ALLTUDIO; 5. DRAENOG; 9. HAWDDGAR; 10. YSGUTHAN; 11. SENTIMEN- TALIAETH; 12. NAWFED; 14. ORDINHAD; 17. DADEBRODD; 18. OFYNDY; 21. TUHWNT I BOB RHESWM; 24. DYDD GARW; 25. BUCHEDDOL; 26. IACHUSOL; 27. DIAWLIO.

I Lawr: 1. ANGHYSON; 2. TYWYNNWYD; 3. DOGNI; 4. OERFEL; 5. DIYSTYRU; 6. AMGYLCHIAD; 7. NYTHFA; 8. GENETHOD; 13. ESBONIAIS; 15. HANESYDDOL; 16. CODI HWYL; 17. DATODAI; 19. YSMALIO; 20. COSBID; 22. HEDDWCH; 23. RHOCHIA.

-----

CYSTADLEUAETH CROESAIR 35

Y datrysiad cywir a dynnwyd o'r het oedd eiddo M.W. LLANISHEN. A wnaiff M.W. anfon ei g/chyfeiriad llawn. Bydd tocyn llyfrau am £5 yn mynd iddi/iddo. Cafwyd datrysiad cywir hefyd oddi wrth: B.H., Cyncoed; S. Evans, Cathays; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd, C. Davies, Cyncoed; D.J.D., Creigiau; Iolo, Llandaf; Mrs. Profit, Cathays; Nan Rees, Y Barri; Sion, Radyr.

**Cofiwch bod gwobr o £5 am ateb y Croesair yn gywir. Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed.**


Cymdeithas Wyddonol Caerdydd a'r Cylch

Darlith gyntaf y tymor

**ANFEIDREDD**

gan

**Yr Athro Des Evans**

Adran Fathemateg Bur
Coleg y Brifysgol,
Caerdydd

**Nos Iau, 20 Hydref am 7.15**
**yn Adeilad Redwood**
**Athrofa'r Brifysgol**
**Parc Cathays**

CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

**LLYFRAU**
**RECORDIAU**
**CASETIAU**
**CARDIAU**



Ar Agor
10.00— 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530